
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd



Ein camau gweithredu i gyflawni  Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2020-2024

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

www.arfordirpenfro.cymru

## Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd – Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyflawni

### Ysgogwyr Strategol

- ✓ Mae gan Lywodraeth Cymru darged i'r sector cyhoeddus yng Nghymru fod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030. Mae Llywodraeth Cymru yn ei Datganiad Ysgrifenedig Gwerthfawr a Chydnerth yn sôn bod ynni gwyrdd a datgarboneiddio yn un o'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Ym mis Rhagfyr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun newydd ymaddasu i newid yn yr hinsawdd ar gyfer Cymru, Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd**.**
- ✓ Mae Adroddiad Interim Cyfoeth Naturiol Cymru 2019 ynghylch SoNaRR a Datganiad Ardal De-orllewin Cymru yn tynnu sylw at natur gydgysylltiedig yr heriau byd-eang mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth.
- ✓ Dylai camau gweithredu gefnogi:
  - Polisi N1 Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol: Cyfrannu at economi carbon isel i Gymru ac addasu i newid yn yr hinsawdd
  - Amcanion Llesiant yr Awdurdod: Byd-eang – Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang. Gwydnwch – Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol. Cymunedau: Annog cymunedau i ymgysylltu mwy â'r Parc Cenedlaethol.
  - Prosiect y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar Sir Benfro garbon niwtral
- ✓ Bydd y camau gweithredu yn helpu i gyrraedd targedau allyriadau Carbon Llywodraeth Cymru, y Ddyletswydd Adran 6, a gweithredu egwyddorion Rheoli Cynaliadwy Adnoddau Naturiol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2018.

### Meysydd Effaith

- ✓ Hyrwyddo dull carbon niwtral sy'n effeithlon o ran adnoddau yn ein gwaith ac yn y Parc, gan gynnwys gwneud ein fflyd a'n hoffer yn wyrdd a gwneud ein hadeiladau yn fwy gwyrdd.
- ✓ Canfod a datblygu cyfleoedd i amddiffyn a gwella'r storfa garbon yn y Parc, a hefyd helpu i atal rhag colli bioamrywiaeth.
- ✓ Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a theithio llesol yn y Parc.
- ✓ Gweithio gyda chymunedau a busnesau lleol i ddatblygu ymatebion lleol i'r Argyfwng Newid Hinsawdd.
- ✓ Gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol ac eraill i godi ymwybyddiaeth ac ymateb i risgiau'r newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo dulliau ymaddasu.
- ✓

### Monitro

- ✓ Bydd y camau gweithredu a'r dangosyddion yn cael eu prif ffrydio i gylch Cynllunio Corfforaethol yr Awdurdod a'u monitro trwy gyfrnag adroddiadau perfformiad a system rheoli perfformiad yr Awdurdod. Bydd y camau gweithredu yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan ystyried perfformiad cyfredol a chyfleoedd newydd. Bydd statws y ddogfen hon yn cael ei diweddaru bob chwarter.
- ✓ Bydd y dangosyddion blynyddol a'r crynodeb o berfformiad hyd yma o gymharu â tharged 2030 yn cael eu darparu yn yr adroddiad gwella blynyddol / adroddiad

ar gyflawni'r amcan llesiant. Darperir adroddiad ar wahân os bydd yr Aelodau'n gofyn amdano.

- ✓ Bydd data'n cael eu hadolygu i asesu a nodi meysydd wedi'u targedu ar gyfer lleihau carbon o fewn gweithrediadau'r Awdurdod.
- ✓ Dangosydd Craidd: **kg. o allyriadau carbon blynyddol**

## Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd – Trosolwg o'r Cynllun Gweithredu

### Monitro

Monitro cynnydd a sicrhau y gellir rhoi ymyriadau ar waith lle bo angen.

➔ System Rheoli Amgylcheddol ➔ Alinio â methodoleg adrodd Llywodraeth Cymru ➔ Gwobrau'r Allwedd Werdd yn y Canolfannau

Asesu effaith carbon wrth ddatblygu prosiectau neu wneud penderfyniadau

➔ Effaith Carbon wedi'i ymgorffori yng nghynigion prosiectau a Phapurau Pwyllgor perthnasol

### Trafnidiaeth ac Offer

Lleihau allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ac offer yr Awdurdod

➔ Gwyrddu'r Fflyd ➔ Gwyrddu ein Hoffer ➔ Hyrwyddo opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy, Teithio Llesol a chyfathrebu digidol

Hyrwyddo a chefnogi trafnidiaeth gynaliadwy a chyfleoedd teithio llesol yn y Parc

➔ Rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ➔ Bysiau Arfordirol Partneriaeth Lonydd Glas ➔ Mentrau 'Tread Gently': Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a theithio llesol yn y Parc

### Ynni ac Adeiladau

Lleihau ein defnydd o ynni o safleoedd yr Awdurdod a chynhyrchu ynni adnewyddadwy lle bo hynny'n ymarferol ar ein hystâd

➔ Gwyrddu ein Hadeiladau (Cam 2) ➔ Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy PV

Hyrwyddo Prosiectau Ynni Adnewyddadwy Cymunedol ac Unigol trwy'r Polisi Cynllunio

➔ Cyrraedd targedau ynni adnewyddadwy yn y Cynllun Datblygu Lleol 2 ➔ Canllawiau Cynllunio Atodol

### Caffael a Rheoli Gwastraff

Lleihau allyriadau, effaith amgylcheddol a gwastraff trwy ein harferion caffael

➔ Gwella Arferion Caffael Cynaliadwy ➔ Mynd i'r afael â mannau sy'n uchel o ran effaith papur

Lleihau gwastraff a gynhyrchir gan staff, gweithrediadau'r Awdurdod ac mewn canolfannau

➔ Gwella Monitro Gwastraff ➔ Mentrau Gwastraff 'Tread Gently' ➔ Cyfrannu at Genedl Ail-lenwi

### Bioamrywiaeth - Gweithgareddau Rheoli Tir a Dŵr

Cefnogi prosiectau a chynlluniau bioamrywiaeth a chadwraeth sydd hefyd yn gwella ac yn diogelu Dal a Storio Carbon yn y Parc.

➔ Gwarchod y Parc ➔ Ffiniau Traddodiadol ➔ Gwaith cadwraeth ar yr ystad sy'n eiddo i'r Awdurdod neu ar Brydles ➔ Prosiect Cydnerthu Tir Comin Sir Benfro ➔ Dal a Storio Carbon ar gyfer Prosiect y Genedl ➔ Prosiect Peilot Llwybrau, Planhigion a Pheillwyr ➔ Pwyth yn ei Bryd ➔ Cam 2 Cysylltiadau Naturiol ➔Cefnogi prosiectau partneriaeth yn amgylchedd y blaendraeth a'r môr ➔ Cymryd rhan yn Rhwydwaith Pori Sir Benfro a Grŵp Tân Gwyllt Sir Benfro

### Ymgysylltu Cymunedol ac Arloesi

Gweithio gyda Chymunedau a chefnogi arloesedd i ddatblygu ymatebion i'r Argyfwng Newid Hinsawdd

➔ Prosiectau SDF sy'n canolbwyntio ar yr Argyfwng Newid Hinsawdd ➔ Gwyrddu ein cymunedau – prosiectau yn y gymuned ➔ Gweithio gydag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill ac AHNE ar brosiectau arloesol ar y cyd

### Ymaddasu i Newid Hinsawdd

Rhoi mecanweithiau ar waith i gefnogi ymaddasu i newid hinsawdd

➔ Gweithredu polisïau CDLl 2 ➔ Cynnwys pobl wrth gofnodi newid ➔ Cynyddu Gwydnwch

i Ddifrod yn sgil Stormydd y Gaeaf ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus ➔ Ymwneud â Chynlluniau Rheoli Blaendraeth ac Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid Hinsawdd ar gyfer Sir Benfro

## 1. Monitro

a) Rydym yn monitro cynnydd ac yn sicrhau y gellir rhoi ymyriadau ar waith lle bo angen

| Cam Gweithredu | Diben/Canlyniad | Cyllid/Adnodd | Amserlen | Swyddog Arweiniol | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| System Rheoli Amgylcheddol ar waith i sicrhau bod y Polisi Amgylcheddol yn cael ei weithredu | Sicrhau bod y polisi amgylcheddol wedi'i ymgorffori yn y modd y mae'r Awdurdod yn gweithredu a bod perfformiad a chynnydd yn cael eu monitro | Amser Swyddog. | 2020/21 – 2021/22 | Rheolwr Gwella Busnes a TG | Datblygiad wedi'i drefnu ar gyfer 2020/21. System i alinio â Methodoleg Cofnodi Llywodraeth Cymru. |
| Perfformiad y system Rheoli Amgylcheddol yn cael ei fonitro | Mae Perfformiad a Chynnydd yn cael ei fonitro, gellir rhoi ymyriadau ar waith i wella perfformiad mewn meysydd. | Amser Swyddog. | Parhaus | Rheolwr Gwella Busnes a TG | Unwaith y bydd yn ei le, bydd y system yn cael ei monitro'n barhaus. |
| Adlinio monitro carbon â methodoleg Llywodraeth Cymru | Mae cyfrifiad carbon yr Awdurdod yn cyd-fynd â methodoleg safonol Llywodraeth Cymru | Amser Swyddog. | 2020/21 – 2021/22 | Rheolwr Prosiectau Adeiladu / Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth / Rheolwr Gwella Busnes a TG | Yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ryddhau methodoleg cofnodi. **Bydd mesurau / targedau penodol yn cael eu gosod ar gyfer meysydd unwaith y bydd data wedi'i ail-alinio.** |
| Parhad o ran y Canolfannau sy'n ennill Gwobrau'r Allwedd Werdd | Mae canolfannau'n parhau i ddangos lefel uchel o berfformiad amgylcheddol trwy ennill y Wobr Allwedd Werdd | Cost Flynyddol y Cynllun | Parhaus | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Y Gymuned ac Ymwelwyr / | Proses ymgeisio / adnewyddu flynyddol ar waith. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Rheolwyr Canolfannau | |

b) Rydym yn asesu effaith carbon wrth ddatblygu prosiectau neu wneud penderfyniadau

| Cam Gweithredu | Diben/Canlyniad | Cyllid/Adnodd | Amserlen | Swyddog Arweiniol | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| Effaith Carbon wedi'i ymgorffori yng nghynigion y prosiect | Mae prosiectau a ddatblygir yn ystyried eu heffaith o ran allyriadau carbon neu effaith gadarnhaol ar storfeydd carbon. | Amser Swyddog | 2020/21 – 2021/22 | Rheolwr Cyllid Allanol | Gweithgaredd wedi'i drefnu ar gyfer 2020/21. |
| Effaith Carbon wedi'i ymgorffori ym mhapurau perthnasol y Pwyllgor i lywio penderfyniadau Aelodau | Gall aelodau ystyried effaith penderfyniad ar allyriadau carbon neu effaith gadarnhaol / negyddol ar storfeydd carbon | Amser Swyddog | 2020/21 – 2021/22 | Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth / Rheolwr Gweinyddiaeth a gwasanaethau democrataidd | Gweithgaredd wedi'i drefnu ar gyfer 2020/21. Bydd methodoleg cofnodi Llywodraeth Cymru yn effeithio arno. |

## 2. Trafnidiaeth ac Offer

a) Rydym yn lleihau allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ac offer yr Awdurdod

| Cam Gweithredu | Cyfnod | Diben/Canlyniad | Cyllid/Adnodd | Amserlen | Swyddog Arweiniol | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrddu’r Fflyd (Prosiect Graddol) | Caffael: Symud i fflyd allyriadau isel ar gyfer ceir a faniau gan gynnwys defnyddio cerbydau trydan | Cael fflyd allyriadau isel | Cyfuniad o gronfeydd cyfalaf yr Awdurdod a grantiau cyllido Llywodraeth Cymru (£140K wedi'i sicrhau hyd yma) | Parhaus – Yn seiliedig ar yr Amserlen Adnewyddu | Rheolwr Gwella Busnes a TG | Parhaus – Yn seiliedig ar yr Amserlen Adnewyddu Ystyriaethau Effaith Amgylcheddol: Defnydd Diwedd Oes o ran batris |
| | Caffael: Symud i gerbydau 4 x 4 sydd â llai o allyriadau - yn fwy effeithlon o ran tanwydd | Cael fflyd allyriadau isel | Cyfuniad o gronfeydd cyfalaf yr Awdurdod a grantiau cyllido Llywodraeth Cymru yn y dyfodol | Parhaus – Yn seiliedig ar yr Amserlen Adnewyddu | Rheolwr Gwella Busnes a TG | Parhaus – Yn seiliedig ar yr Amserlen Adnewyddu |
| | Caffael: Symud i gerbydau 4 x4 trydan | Cael fflyd allyriadau isel | Yn dibynnu ar gost sy'n gysylltiedig â gwelliannau i dechnoleg | Yn dibynnu ar welliannau i dechnoleg | Rheolwr Gwella Busnes a TG | Ystyried gwelliannau parhaus mewn technoleg. Ystyriaethau Effaith Amgylcheddol: Defnydd Diwedd Oes o ran batris |
| | Cyfleoedd arloesi: Archwilio cyfleoedd i weithio gyda chwmnïau a phrifysgolion ar gyfleoedd ymchwil a | Cyfrannu at ddatblygu fflydoedd allyriadau isel, yn enwedig mewn cyd-destun | Yn dibynnu ar gyfleoedd partneriaeth a dichonoldeb | Parhaus | Rheolwr Gwella Busnes a TG | Cwmpasu cyfleoedd ar y gweill |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | datblygu sy'n gysylltiedig â datblygiadau Fflyd Werdd | gwledig. | | | | |
| Hyrwyddo opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy, teithio llesol a chyfathrebu digidol | Polisi: Fframwaith ar waith i hyrwyddo Opsiynau Teithio Cynaliadwy a Llesol i Staff trwy'r Polisi Teithio (Canllawiau ar gost/amser) | Mwy o staff yn dewis opsiynau teithio cynaliadwy a llesol ar gyfer teithiau cysylltiedig â gwaith. | Amser Swyddog.. | 2020/2021 | Rheolwr Gwella Busnes a TG | Mae'r Polisi Teithio wedi'i ddiwygio. Monitro parhaus y nifer sy'n dewis opsiynau teithio cynaliadwy a llesol o gymharu â'r defnydd o gerbydau. |
| | Mentrau 'Tread Gently': Hyrwyddo rhaglenni teithio a mentrau Teithio Cynaliadwy a llesol i staff, Aelodau a gwirfoddolwyr gan gynnwys cynllun beicio i'r gwaith | Mwy o staff yn dewis opsiynau teithio cynaliadwy a llesol ar gyfer teithiau i'r gwaith a theithiau cysylltiedig â gwaith. | Amser Swyddog. | Parhaus | Rheolwr Gwella Busnes a TG / Rheolwr Adnoddau Dynol | 2020/21 dechrau datblygu gweithgareddau a mentrau hyrwyddo. |
| | Ffyrdd o weithio: Archwilio cyfleoedd i helpu staff i weithio o bell a ffyrdd eraill o weithio lle y bo'n briodol sy'n helpu i leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â theithio trwy adolygiad ehangach o bolisïau adnoddau dynol. | Lleihau allyriadau sy'n gysylltiedig â'r milltiroedd trwy ffyrdd effeithiol o weithio | Amser swyddog. Costau posibl sy'n gysylltiedig â offer. | 2020/21 – 2021/22 | Rheolwr Adnoddau Dynol | 2020/21 adolygiad ehangach o bolisïau ac arferion adnoddau dynol.<br><br>Ystyriaethau cydraddoldeb: Dylai unrhyw newid mewn arfer fod yn amodol ar asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac ymgynghoriad staff. |
| | Seilwaith: Gwella Capasiti Cynadledda Fideo | Lleihau allyriadau cysylltiedig â milltiroedd trwy alluogi dulliau cyfarfod amgen. | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. Amcangyfrif o'r Gost Gychwynnol: | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid | Rheolwr Gwella Busnes a TG | Cynnydd yn dibynnu ar sicrhau cyllid ar gyfer y prosiect |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | £34,000. | | | |
| | Seilwaith: Defnyddio meddalwedd Agile ym maes rheoli datblygu i gynorthwyo gwaith o bell | Lleihau allyriadau cysylltiedig â milltiroedd yn achos Swyddogion Cynllunio trwy alluogi swyddogion i weithio o bell. | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. Amcangyfrif o'r Gost Gychwynnol: £30,000. | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid | Rheolwr Gwella Busnes a TG /Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfeiriad y Parc | Cynnydd yn dibynnu ar sicrhau cyllid ar gyfer y prosiect. |
| Gwyrddu ein Hoffer | Caffael: Mae opsiynau batri ac allyriadau isel lle bo hynny'n ymarferol yn cael eu caffael wrth amnewid neu brynu offer newydd | Cael offer allyriadau isel ar draws Timau Wardeiniaid a Pharcmyn | Yn dibynnu ar gost sy'n gysylltiedig â gwelliannau i dechnoleg. | Parhaus – Yn seiliedig ar yr Amserlen Adnewyddu | Rheolwr Gweithrediadau | Cafwyd £5000 gan Lywodraeth Cymru i brynu peiriannau addas a weithredir gan fatri. |

b) Rydym yn hyrwyddo a chefnogi trafnidiaeth gynaliadwy a chyfleoedd teithio llesol yn y Parc.

| Cam Gweithredu | Cyfnod | Diben/Canlyniad | Cyllid/Adnodd | Amserlen | Swyddog Arweiniol | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhwydwaith o Bwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan | Cam Caffael 1: Pwyntiau Gwefru Trydan mewn Pedwar Safle - Saundersfoot, Oriel y Parc, Porthgain ac Aber Llydan. | Cam cyntaf y pwyntiau gwefru trydan ar waith ar draws y Parc i gefnogi'r defnydd o gerbydau trydan (wedi'u halinio â darpariaeth ehangach ledled Sir Benfro ar gyfer Cyngor Sir Penfro) | Sicrhawyd Cyllid - Llywodraeth Cymru. Cyfle i Gynhyrchu Incwm | 2020/21 | Rheolwr Prosiectau Adeiladu | Contractwr wedi'i benodi ar gyfer pwyntiau gwefru. Wedi'i gynllunio'n wreiddiol ar gyfer mis Mawrth, yn profi oedi. |
| | Cam Caffael 2: Pwyntiau Gwefru Trydan ar oddeutu | Seilwaith Gweithredol ar waith i alluogi staff i wneud yn fawr o | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. Tua £20,000 am | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. | Rheolwr Prosiectau Adeiladu | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. Alinio â phrosesau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | pedwar safle at ddefnydd gweithredol Cerbydau Trydan APCAP | gerbydau trydan | bob pwynt gwefru (amrywioldeb yn dibynnu ar gostau mewn safleoedd penodol o ran cysylltu â'r rhwydwaith trydan) | | | caffael CSP ar gyfer eu pwyntiau gwefru. Cyflenwi'n bwysig er mwyn helpu'r Awdurdod i symud ymlaen i drydaneiddio ei fflyd. |
| | Polisi: Mae'r Polisi Parcio Ceir newydd yn cynnwys cyfeiriad at wefru cerbydau trydan, gyda rhestr o feysydd parcio/safleoedd APCAP wedi'u blaenoriaethu ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan neu ehangu nifer y pwyntiau ar y safle | Mae polisi APCAP yn cefnogi hyrwyddo gwefru cerbydau trydan ym meysydd parcio APCAP ac mae gan yr Awdurdod gynllun a dyheadau clir o ran gweithredu. | Amser Swyddog | 2020/2021 | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, y Gymuned ac Ymwelwyr / Swyddog Ystadau / Rheolwr Prosiectau Adeiladu | Gweithgaredd wedi'i drefnu ar gyfer 2020/21. |
| | Cam Caffael 3: Caffael pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn meysydd parcio / safleoedd wedi'u blaenoriaethu neu ehangu nifer y pwyntiau mewn safleoedd sydd eisoes â darpariaeth. | Rhwydwaith ar waith ar draws y Parc a Sir Benfro i gefnogi'r defnydd o gerbydau trydan | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. Tua £20,000 am bob pwynt gwefru (amrywioldeb yn dibynnu ar gostau mewn safleoedd penodol o ran cysylltu â'r rhwydwaith trydan) | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. Alinio â phrosesau caffael CSP ar gyfer eu pwyntiau gwefru. | Rheolwr Prosiectau Adeiladu | Rhestr o feysydd parcio / safleoedd wedi'u blaenoriaethu neu ehangu nifer y pwyntiau mewn safleoedd sy'n cael eu datblygu i lywio cyfleoedd yn y dyfodol. |
| Greenways Partnership – Coastal Buses | Cymorth ariannol: Parhau i ddarparu cefnogaeth ariannol i'r Gwasanaeth Bysiau | Cynyddu opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus i dwristiaid ac ymwelwyr ar | Cyfraniad blynyddol i Lonydd Glas. 2020/21 | Parhaus | Rheolwr Cyllid | Cynnwys yng nghyllideb 2020/21 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Arfordirol trwy Bartneriaeth Lonydd Glas | safleoedd y Parc | | | | |
| Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a theithio llesol yn y Parc | Mentrau 'Tread Gently': Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a rhaglenni teithio llesol | Mwy o ymwelwyr yn dewis opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy a theithio llesol wrth ymweld a theithio o amgylch y Parc. | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. | Parhaus | Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata / Swyddog Polisi Twristiaeth | 2020/21 ystyried cyfleoedd ar gyfer datblygu a hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a rhaglenni teithio llesol. |
| | Hyrwyddo Cyfleoedd Cerdded â Chefnogaeth: Darparu Walkability a Prosiect Cerdded er Lles | Mwy o bobl yn teimlo y gallant ddewis opsiynau teithio llesol yn eu cymunedau | Grant Prosiect Cerdded er Lles wedi'i Ariannu trwy Gronfa Byw'n Iach ac Egnïol Llywodraeth Cymru | Walkability - Ar y gweill Cerdded Er Iechyd - Prosiect tair blynedd | Arweinydd y Tîm Darganfod | Mae prosiect cerdded er lles wedi dechrau. Parhad y cynllun Walkability. Cyfleoedd cerdded a gefnogir wedi'u hatal ar hyn o bryd oherwydd COVID-19. |
| | Ymgysylltu: Gweithio ar lefel strategol gyda phartneriaeth i wella'r cynnig trafnidiaeth gyhoeddus yn Sir Benfro | Gwell cynnig trafnidiaeth gyhoeddus yn Sir Benfro | Amser Swyddog | Parhaus | Uwch Dîm Rheoli / Swyddog Polisi Twristiaeth | Gwahoddiad i fynychu Partneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol De-orllewin Cymru. Datblygu cysylltiadau â fforymau trafnidiaeth lleol. |

## 3. Ynni ac Adeiladau

a) Rydym yn lleihau ein defnydd o ynni o safleoedd yr Awdurdod a chynhyrchu ynni adnewyddadwy lle bo hynny'n ymarferol ar ein hystâd.

| Cam Gweithredu | Cyfnod | Diben/Canlyniad | Cyllid/Adnodd | Amserlen | Swyddog Arweiniol | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrddu ein Hadeiladau (Cam 2) | Astudiaeth Ddichonoldeb: Nodi'r hyn y mae angen i ni ei wneud nesaf ar draws ein safleoedd | Mae gan yr awdurdod set o flaenoriaethau ar gyfer parhau i Wyrddu ei adeiladau | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. Amcangyfrif o'r Gost Gychwynnol: £5000. Ystyried opsiwn Refit Cymru. | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. | Rheolwr Prosiectau Adeiladu | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. Gan gynnwys ystyried opsiynau sy'n ymwneud â benthyciadau 0% trwy Refit Cymru ac ati. |
| | Prosiect: Gwneud gwaith ar safleoedd a nodwyd yn yr astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Gwyrddu Adeiladau. | Cael adeiladau allyriadau isel | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid.<br>Arbedion tymor hir posib. | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid | Rheolwr Prosiectau Adeiladu | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid a chanlyniad yr astudiaeth uchod. |
| | Partneriaeth: Parhau i ymwneud â Fforwm Ynni Sir Benfro. | Dysgu a rennir a chyfleoedd ar y cyd i lywio ein prosiectau datgarboneiddio | Amser Swyddog | Parhaus | Rheolwr Prosiectau Adeiladu | Ar hyn o bryd yn gwasanaethu ar y fforwm. |
| Cynhyrchu PV | Prosiect: Prosiect Cynhyrchu PV ffotofoltäig (CH a Chilrhedyn) | Cynyddu cynhyrchu ynni adnewyddadwy o'n hystad | Astudiaeth Ddichonoldeb mewn dau safle a ariennir - 2019/20. Cyflawni yng nghyllideb gyfalaf 2020/21. | 2020/21 | Rheolwr Prosiectau Adeiladu | Ymgynghorwyr yn gweithio ar astudiaethau dichonoldeb ar gyfer dau safle. |

b) Rydym yn cyfrannu trwy ganiatâd cynllunio at dargedau ar Drydan a Gwres Adnewyddadwy a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol.

| Cam Gweithredu | Diben/Canlyniad | Cyllid/Adnodd | Amserlen | Swyddog Arweiniol | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithredu Polisi CDLl 2 - Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel gyda chaniatâd cynllunioi i gyfrannu at Darged Trydan Adnewyddadwy cyffredinol ar gyfer y Parc Cenedlaethol o 38.9GWh a Tharged Gwres Adnewyddadwy cyffredinol ar gyfer y Parc Cenedlaethol o 9.8 GWh - yn amodol ar fabwysiadu CDLl 2. | Cefnogir prosiectau ynni adnewyddadwy priodol yn y Parc Cenedlaethol. | Gwasanaeth Parhaus trwy Gynllunio. Gall cyfleoedd / cyfyngiadau cyllid ehangach ac unrhyw newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir effeithio ar y targedau a gynigir. | Cyfnod CDLl 2 (ar ôl ei fabwysiadu) | Pennaeth Cyfeiriad y Parc / Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfeiriad y Parc / Arweinydd Tîm – Rheoli Datblygu | Yn aros i fabwysiadu CDLl 2. Bydd yn cael ei fonitro trwy Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl |
| Paratoi canllawiau cynllunio atodol i gynnwys hyrwyddo gwella bioamrywiaeth, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a dylunio cynaliadwy. | I gynyddu bioamrywiaeth, lleihau allyriadau a'r defnydd o adnoddau naturiol. | O fewn adnoddau ariannol presennol. | Mabwysiadu o fewn y flwyddyn ariannol 2020/21. | Pennaeth Cyfeiriad y Parc | Aros i CDLl gael ei fabwysiadu 2. Ymchwilio i ddatblygu cynlluniau lleoedd sy'n gysylltiedig â'r themâu hyn. |

## 4. Caffael a Gwastraff

a) Rydym yn lleihau allyriadau, effaith amgylcheddol a gwastraff trwy ein harferion caffael

| Cam Gweithredu | Cyfnod | Diben/Canlyniad | Cyllid/Adnodd | Amserlen | Swyddog Arweiniol | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwella Arferion Caffael Cynaliadwy | Archwiliad Cam 1: Comisiynu adolygiad allanol o arferion caffael gydag argymhellion ar sut y gall yr Awdurdod wella ei arferion caffael o ran cynaliadwyedd, gan gynnwys buddion cymunedol, cyrchu'n lleol, economi gylchol, gwella ymddygiad contractwyr ac ati ar draws timau a swyddogaethau'r Awdurdod (gan gynnwys nwyddau a werthir mewn canolfannau.) | Mae gan yr Awdurdod restr o argymhellion y gall eu gweithredu a fydd yn gwella ei arferion caffael cynaliadwy. | Yn dibynnu ar sicrhau Cyllid. | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid | Prif Weithredwr/ Rheolwr Cyllid | Ar hyn o bryd nid oes gan yr awdurdod arbenigwr caffael mewnol ee Swyddog / Tîm Caffael. Mae angen arbenigedd allanol. |
| | Adolygiad Polisi Cam 2: Adolygiad o Bolisi Caffael Cynaliadwy'r Awdurdod, gan ystyried argymhellion adolygiad allanol | Mae polisi caffael yr Awdurdod yn cefnogi gwell arferion caffael cynaliadwy yn yr Awdurdod. | Amser Swyddog | Yn dilyn Adolygiad Allanol | Prif Weithredwr/ Rheolwr Cyllid | Yn dibynnu ar ganlyniad yr astudiaeth uchod. |
| | Cam 3 Gweithredu: Gweithredu argymhellion adolygiad allanol | Mae allyriadau, effaith amgylcheddol a gwastraff yn cael eu lleihau trwy'r arfverion caffael ar | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. | Yn dilyn Adolygiad Allanol. Gall fod yn ddibynnol ar | Prif Weithredwr/ Rheolwr Cyllid | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid a chanlyniad yr astudiaeth uchod. Gall fod rhai |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | draws yr Awdurdod. | | Gyllid / Capasiti Staff. | | cyfleoedd y gellir eu cyflawni'n gyflym nad ydynt yn dibynnu ar sicrhau cyllid ychwanegol. |
| Caffael Opsiynau Cyfathrebu Digidol - Ar gyfer meysydd gweithredu sy'n uchel o ran effaith papur | [Gweler y prosiect cynharach ynghylch Defnyddio meddalwedd Agile ym maes rheoli datblygu i gynorthwyo gwaith o bell o dan 2a. Hyrwyddo opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy, teithio llesol a chyfathrebu digidol] | | | | | |
| | Caffael: Meddalwedd a Thabledi ar gyfer Cyfarfodydd Bwrdd | Platfform cydweithredol ar waith sy'n galluogi mynediad at ddogfennau, gan leihau'r angen am argraffu papur. | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. Amcangyfrif Cost Gychwynnol: Effeithiau Blwyddyn 1 prynu 25 Trwydded £9,375 + £18 x ipads @ £350 = £6,300 Cost Barhaus: Adnewyddu 25 Trwydded bob blwyddyn Arbedion Cost: Costau cyfredol argraffu a phostio | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. | Rheolwr Gwella Busnes a TG | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. Effaith Amgylcheddol: Angen ystyried yr effaith ar allyriadau ac adnoddau o brynu i-pads |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Caffael: Tabledi Cerbydau ar gyfer Parcmyn a Wardeiniaid<br>Caffael: Meddalwedd a Thabledi ar gyfer Cyfarfodydd Bwrdd | Trwy reoli gwaith yn electronig, cofnodi gwybodaeth a'u hanfon i system a reolir yn ganolog, mae'n lleihau'r angen am gofnodion papur ac yn lleihau allyriadau o filltiroedd ychwanegol. | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. Amcangyfrif Cost Gychwynnol: £20 x ipads @ £350 = £7,000<br>Cost Barhaus:<br>Arbedion Cost: Costau cyfredol argraffu / milltiroedd | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. | Rheolwr Gwella Busnes a TG | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. Effaith Amgylcheddol: Angen ystyried yr effaith ar allyriadau ac adnoddau o brynu i-pads. |

b) Lleihau gwastraff a gynhyrchir gan staff, gweithrediadau'r Awdurdod ac mewn canolfannau

| Cam Gweithredu | Cyfnod | Diben/Canlyniad | Cyllid/Adnodd | Amserlen | Swyddog Arweiniol | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwella Monitro Gwastraff | System Fonitro Cam 1: Rhoi system monitro gwastraff well ar waith ar gyfer<br>- Canolfannau<br>- Depos<br>- Gwaith wedi'i leoli ar y safle'r Awdurdod | Mae gan yr Awdurdod y wybodaeth sydd ei hangen arno i dargedu camau i leihau gwastraff ar draws yr Awdurdod. | Amser Swyddog | Amser Swyddog Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. | Rheolwr Gwella Busnes a TG | Bydd yn cael ei integreiddio i'r System Rheoli Amgylcheddol. Datblygiad wedi'i drefnu ar gyfer 2020/21. |
| | Ymyriadau wedi'u Targedu Cam 2: Datblygu ymyriadau wedi'u targedu i wella perfformiad lle bo angen yn seiliedig ar ddata o fonitro gwastraff | Mae gweithredu wedi'i dargedu yn arwain at ostyngiad mewn gwastraff a gynhyrchir a gwell arferion | Amser Swyddog | Yn dilyn adolygiad allanol, | Rheolwr Gwella Busnes a TG | Yn dibynnu ar ddadansoddiad o'r data a gasglwyd yn nhermau'r system uchod. |
| Mentrau gwastraff Tread | Mentrau gwastraff Tread Gently: Rhannu | Rhannu'r dysgu yn arwain at well | Amser Swyddog | 2020/21 – 2021/22 | Rheolwr Prosiectau | Gweithgaredd wedi'i drefnu ar gyfer |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gently | Gwybodaeth – gofalwr Llanion i ymweld â chanolfannau i'w helpu i nodi cyfleoedd i wella eu harferion yn seiliedig ar ddysgu o reoli gwastraff yn Llanion | arferion rheoli gwastraff ar draws safleoedd yr Awdurdod | | | Adeiladu | 2020/21. |
| Cyfrannu at Ail-lenwi Cenedl | Treialu Gorsafoedd Ail-lenwi Dŵr mewn nifer o safleoedd prawf. Sicrhau bod ein holl Ganolfannau a Llanion yn Orsafoedd Ail-lenwi ac yn gweithio gyda'n darparwyr consesiwn perthnasol i ddod yn orsafoedd ail-lenwi. | Cyfrannu at fod Cymru yn dod yn genedl ail-lenwi, gan ei gwneud hi'n haws i bobl ail-lenwi eu poteli dŵr heb orfod prynu poteli untro | Saith Gorsaf Ail-lenwi i'w hariannu i'w gosod yn 2019/20. Sicrhawyd cyllid ar gyfer gorsaf ail-lenwi ym Maes Parcio Broad Haven yn 2019/20. | Gosod Gorsaf Ail-lenwi Dŵr 2019/20. Monitro'r cynllun peilot ar y gweill. Gorsafoedd Ail-lenwi mewn Canolfannau – Ar y gweill | Rheolwr Prosiectau Adeiladu / Rheolwyr Canolfannau | Unedau a osodwyd yn y lleoliadau canlynol (er nad yw eto'n cael ei ddefnyddio COVID 19): Nolton Haven, Abercastell, Freshwater East, Porthclais Pwllgwaelod, St. Brides, Amroth. Mae uned ychwanegol i'w gosod ym maes parcio Broad Haven fel rhan o'r prosiect mawr ar gyfer y safle. |

## 5. Bioamrywiaeth - Gweithgareddau Rheoli Tir a Dŵr

a) Rydym yn cefnogi prosiectau a chynlluniau bioamrywiaeth a chadwraeth sydd hefyd yn gwella ac yn diogelu Dal a Storio Carbon yn y Parc.

| Cam Gweithredu | Diben/Canlyniad | Cyllid/Adnodd | Amserlen | Swyddog Arweiniol | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchod y Parc | Yn adfer dolydd gwair, glaswelltir corsiog a nodweddion cysylltedd (gwrychoedd, cloddiau, coridorau nentydd) ac yn creu ardaloedd newydd o gynefin, gan gynnwys glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau, cynefinoedd arfordirol a choed pori.<br><br>Gwarchod a gwella carbon sy'n cael ei storio mewn pridd a chynefin lled-naturiol. | Gwasanaeth Parhaus.<br>Mae'r Ymgyrch Creu Mwy o Ddolydd yn cyfrannu at weithgareddau. | Parhaus | Swyddogion Cadwraeth | Ar y gweill. Penodwyd Swyddog Cadwraeth Ychwanegol yn 2019/20. |
| Ffiniau Traddodiadol | Cynllun grant o fewn Gwarchod y Parc a fydd yn cynorthwyo rheolwyr tir i reoli ffiniau yn unol â'r canllawiau y cytunwyd arnynt. | Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Cymru - £45,000. | 2020/21 | Swyddog Bioamrywiaeth | Ar y gweill. Cam cwmpasu wedi dechrau. |
| Gwaith cadwraeth ar Ystad sy'n eiddo i'r Awdurdod neu ar Brydles | Rheoli asedau dan berchnogaeth neu brydles ar gyfer bioamrywiaeth.<br><br>Gwarchod a gwella carbon sy'n cael ei storio mewn pridd a chynefin lled-naturiol. | Gwasanaeth Parhaus. | Parhaus | Swyddog Bioamrywiaeth | Ar y gweill. |
| Prosiect Cydnerthu Tir Comin Sir Benfro | Bydd amddiffyn ffiniau yn helpu i sicrhau cyflwr ffafriol ar gyfer y safleoedd gwerthfawr a dynodedig hyn at y dyfodol ac yn darparu'r dyddodion mwyaf o garbon ar ffurf mawn yn Sir Benfro. | Cyllid Cyfalaf LIC - £15,000 ar gyfer 2020/21 | 2020/21 | Swyddog Cadwraeth Fferm | Yn dechrau yn 2020/21 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sequestration for the Nation (Prosiect Posibl) | Cadwraeth natur ar raddfa sy'n cefnogi ac yn gwella dal a storio carbon ar raddfa. | Yn dibynnu ar sicrhau Cyllid. Ceisir hyd at £1m yn flynyddol yn y gyllideb | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid / yr Awdurdod yn perchenogi | I'w drafod | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid a bod yr Awdurdod a'r gymuned yn perchenogi Ceisir hyd at £1m yn flynyddol yn y gyllideb. Datblygu cynnig prosiect ar gyfer rhaglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy. |
| Prosiect Peilot Llwybrau, Planhigion a Pheillwyr | Prosiect peilot gyda'r nod o newid y ffordd y rheolir Llwybr yr Arfordir trwy roi mwy o bwyslais ar gynnal a chynyddu bioamrywiaeth a chysylltedd. | I'w ariannu am 2 flynedd. Yn ceisio cyllid ychwanegol. | 2019/20 - 2020/21 | Warden Peillio | Ar y gweill. |
| Pwyth yn ei Bryd | Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol a/neu niweidiol yn unol â *Chynllun Gweithredu Rhywogaethau Estron Goresgynnol* Partneriaeth Natur Sir Benfro<br><br>Gwarchod a gwella carbon sy'n cael ei storio mewn pridd a chynefin lled-naturiol. | Prosiect a ariennir gan ENRAW. | 2019-2022 | Cydlynydd y prosiect rhywogaethau estron goresgynnol | Ar y gweill. |
| Cam 2 Cysylltiadau Naturiol | Prosiectau ar waith sy'n adeiladu ar waith yn y gorffennol ac yn helpu cymunedau a busnesau twristiaeth ymhellach i gymryd rhan mewn gofalu am ecosystem y Parc. | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. | Rheolwr Codi Arian. / Rheolwr Gwasanaeth Parcmyn | Yn dibynnu ar sicrhau cyllid. |
| Archwilio cyfleoedd ar gyfer Prosiectau Partneriaeth sy'n ymwneud â chyfleoedd yn | Gweithio trwy bartneriaethau hirsefydlog awdurdodau perthnasol i archwilio sut y gallwn gefnogi / gwella dal a storio carbon yn yr amgylchedd morol. | Yn dibynnu ar ddatblygiad y prosiect ac ar nodi costau ychwanegol. Ar hyn o bryd neilltuir ychydig o | Amser Swyddog. Yn dibynnu ar ddatblygiad y Prosiect ac | Swyddog Polisi Cadwraeth | Syniad yn unig. Ar hyn o bryd neilltuir ychydig o arian ar gyfer cynigion prosiect gan swyddogion y tri Safle Morol Ewropeaidd o |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| amgylchedd y blaendraeth a'r môr (Prosiectau Posibl) | | arian ar gyfer cynigion prosiect gan swyddogion y tri Safle Morol Ewropeaidd o amgylch arfordir y Parc Cenedlaethol. | ar nodi costau ychwanegol. | | amgylch arfordir y Parc Cenedlaethol. |
| Cymryd rhan yn Rhwydwaith Pori Sir Benfro a Grŵp Tân Gwyllt Sir Benfro | Galluogi pori gan stoc addas at ddibenion cadwraeth.<br>Lleihau risg a difrifoldeb tanau gwyllt.<br>Gwarchod ac yn gwella carbon sy'n cael ei storio mewn pridd a chynefin lled-naturiol. | Gwasanaeth Parhaus. | Parhaus | Swyddog Cadwraeth Fferm | Ar y gweill. |
| Ymgysylltu â Phrosiectau Partneriaeth | Gweithio gydag eraill i sicrhau cyllid a chyflawni prosiectau ar y cyd sy'n cefnogi gweithgareddau a fydd yn cynorthwyo bioamrywiaeth yn y Parc. | Amser Swyddog | Parhaus | Tîm Cadwraeth | Cymryd rhan mewn partneriaeth – Bid Prosiect Bywyd a Chais SMS Rheoli Arfordir Cymru. |

## 6. Ymgysylltu Cymunedol ac Arloesi

a) Gweithio gyda Chymunedau ac yn cefnogi arloesedd i ddatblygu ymatebion i'r Argyfwng Newid Hinsawdd

| Cam Gweithredu | Diben/Canlyniad | Cyllid/Adnodd | Amserlen | Swyddog Arweiniol | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa SDF yn blaenoriaethu prosiectau arloesol sy'n ymateb i argyfwng newid yn yr hinsawdd | Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn galluogi cymunedau yn y Parc Cenedlaethol ac yn agos ato i ddatblygu mentrau arloesol sy'n ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd | Cyllideb SDF. Costau cymorth a gweinyddol ar gyfer hyrwyddo/datblygu prosiectau. | 2020/21 - Parhaus | Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfeiriad y Parc | Wedi'i drefnu ar gyfer 2020/21 |
| Gwyrddu ein cymunedau – gweithio gyda chymunedau, busnesau lleol a gwirfoddolwyr i gynnal gweithgareddau mewn ymateb i newid yn yr hinsawdd ar lefel gymunedol. | Datblygu cyfleoedd trwy ymnwued y Timau Parcmyn, Darganfod, a Wardeiniaid a Chanolfannau â chymunedau (gan gynnwys ysgolion a busnesau lleol) i ddatblygu ymateb ar lefel gymunedol i newid yn yr hinsawdd. Gan gynnwys edrych ar gyfleoedd ar safle Llanion. | Bydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau penodol lle nad yw cyllid craidd/presennol y prosiectau yn talu costau/adnoddau. Fodd bynnag, gellir cynnal gweithgaredd sy'n cefnogi'r amcan – megis mentrau tir ysgol, gweithgareddau addysgol, digwyddiadau cyhoeddus na fydd angen cyllid ychwanegol arnynt. | 2020/21 – Parhaus | Rheolwr Gwasanaeth Parcmyn / Arweinydd Tîm Darganfod/ Rheolwyr Canolfannau | 2020/21 - Archwilio a thrafod cyfleoedd gyda thimau perthnasol yn yr Awdurdod.. Bydd y cynnydd yn cael ei effeithio gan COVID 19 a bydd angen iddo gyd-fynd â chynllunio adferiad ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gymuned a gwirfoddoli. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithio gydag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill ac AHNE ar brosiectau arloesol ar y cyd | Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac AHNE yn datblygu, yn sicrhau cyllid ac yn cyflwyno prosiectau arloesol ar y cyd sy'n ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd. | Amser Swyddog | 2020/21 – Parhaus | Uwch Dîm Rheoli / Rheolwr Codi Arian | 2020/21 - trafod cyfleoedd gyda Pharciau Cenedlaethol ac AHNE eraill |

# 7. Ymaddasu i Newid Hinsawdd

a) Rydym yn rhoi mecanweithiau ar waith i gefnogi ymaddasu i newid hinsawdd

| Cam Gweithredu | Diben/Canlyniad | Cyllid/Adnodd | Amserlen | Swyddog Arweiniol | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithredu Polisïau CDLl 2 Llifogydd a Gorlifiad Arfordirol (Polisi Strategaeth), Datblygiad yn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol, Adleoli anheddau parhaol presennol y mae newid arfordirol yn effeithio arnynt ac Adleoli ac ailosod datblygiad (heblaw preswyl) y mae newid arfordirol yn effeithio arno - yn amodol ar fabwysiadu CDLl 2. | Bydd datblygiad yn cael ei gyfeirio i ffwrdd o'r ardaloedd hynny sydd mewn perygl o lifogydd nawr neu fel y rhagwelwyd ar gyfer y dyfodol gan Fapiau Cyngor Datblygu TAN15 a / neu'r Cynllun Rheoli Traethlin oni bai bod cyfiawnhad cadarn yn unol â Tan 15. Caniateir amddiffyn yr arfordir yn gynaliadwy lle gellir dangos bod y gwaith yn gyson â'r dull rheoli ar gyfer y ffryntiad a gyflwynir yn y Cynllun Rheoli Traethlin perthnasol ac na fydd unrhyw effeithiau niweidiol annerbyniol ar y dirwedd na'r amgylchedd. | Gwasanaeth Parhaus trwy Gynllunio. | Cyfnod CDLl 2 (ar ôl ei fabwysiadu) | Pennaeth Cyfeiriad y Parc / Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfeiriad y Parc / Arweinydd Tîm – Rheoli Datblygu | Yn aros i fabwysiadu CDLl 2. Bydd yn cael ei fonitro trwy ddangosydd Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl 2. |
| Llwybr yr Arfordir a Hawliau Tramwy Mewndirol – Cynyddu Gwydnwch i Niwed gan | Cynllun wrth gefn treigl i ddelio â difrod mawr i'r seilwaith a achosir gan stormydd lleol sy'n dod yn fwy rheolaidd oherwydd effaith newid yn yr hinsawdd. | Angen parhaus i sicrhau cyllid - £20K y flwyddyn. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar wariant a gafwyd | Parhaus. | Rheolwr Mynediad / Rheolwr Gweithrediadau | Wedi'i drefnu ar gyfer 2020/21: Sefydlogi ac ailraddio cyffordd y nant i'r traeth yn Aberfforest Adlinio Llwybr yr Arfordir yn rhagweithiol ym Mhenmaen |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Stormydd Gaeaf | | dros y 18 mis diwethaf. Gallai hyn ariannu contractwyr, deunyddiau, llafur ychwanegol neu iawndal am adlinio Llwybr yr Arfordir yn dibynnu ar natur y difrod o stormydd | | | Dewi i'w wneud yn fwy gwydn i erydiad arfordirol a sicrhau parhad y llwybr. |
| Datblygu Cynlluniau Rheoli Blaendraeth | Mae Cynlluniau Rheoli Blaendraeth priodol ar waith | Amser Swyddog | Parhaus | Rheolwr Gwasanaeth Parcmyn | Ar y gweill - parhau i ymgysylltu â grŵp llywio WAM. |
| Ymgysylltu â phobl â chyfleoedd i gofnodi newid, gan adeiladu ar waith Newid Arfordiroedd | Cyfleoedd o ffynonellau torfol a gwirfoddoli eraill sy'n helpu pobl i gymryd rhan wrth gasglu tystiolaeth bod cofnodion yn newid. | Efallai y bydd angen cyllid yn dibynnu ar brosiectau penodol a ddatblygir. | Parhaus | Swyddog Gwirfoddol | Prosiect Newid Arfordirol yn parhau. |
| Datblygu offer i ymgysylltu â chymunedau yn y Parc ar effaith ac addasu'r newid yn yr hinsawdd | Mae'r awdurdod yn ymgysylltu â chymunedau ar effaith newid yn yr hinsawdd ar y Parc ac ar y bobl sy'n byw ynddo ac yn ymweld ag ef. | Efallai y bydd angen cyllid yn dibynnu ar y dulliau a nodir. | 2020/21 | Arweinydd Tîm Darganfod | Cysylltiadau â gwaith grŵp cynllun gweithredu ymgysylltu ar ddatblygu sgwrs barhaus am gynllun rheoli'r Parc Cenedlaethol. Archwilio cynllun lle posibl ar y thema hon. |
| Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ymatebion i'r Asesiad Risg Amgylcheddol a Newid Hinsawdd ar gyfer Sir Benfro | Mae ymatebion cydgysylltiedig lleol ar waith i risgiau newid yn yr hinsawdd. | Amser Swyddog. Anghenion cyllido posibl yn y dyfodol yn dibynnu ar ganlyniad asesiadau. | Parhaus | Swyddog Polisi Cadwraeth | Mae adroddiad ar y cyd ar gyfer Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Ceredigion wedi'i gomisiynu i asesu digwyddiadau tywydd garw yn y gorffennol, ac i ystyried gwendidau cymunedol. |

**Cofnod wedi'i Ddiweddaru**

| Last Updated | Notes |
|---|---|
| Chwefror 2020 | Cynllun Gweithredu Drafft |
| Mawrth 2020 | Cynllun Diwygiedig ar gyfer cymeradwyaeth APC |
| Mai 2020 | Diweddarwyd yr adran amserlenni a statws yn barod ar gyfer cymeradwyaeth APC |
| Mehefin 2020 | Cymeradwywyd gan APC (yn ddarostyngedig i ddileu dyddiad 2020-2030) |
| Gorffennaf 2020 | Clawr wedi newid - -tynnu dyddiad 2020-2030 |
| | |
| | |
| | |

**I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun gweithredu hwn neu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, cysylltwch â:**
Mair Thomas (Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth) neu Michel Regelous (Swyddog Polisi Cadwraeth)